

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Simon Thomas AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

20 Mawrth 2017

Annwyl Simon

### **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**

Hoffwn ddiolch ichi am ystyriaeth y pwyllgor o'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (y Bil) a'r adroddiad dilynol am egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb. Mae fy ymateb llawn wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Rwy'n falch mai eich argymhelliad cyntaf yw cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n diolch i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn hyn o beth.

O blith y 24 o argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n bleser gennyf allu derbyn 23 ohonynt.

Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi fy ymateb i 12 o argymhellion y pwyllgor hwnnw.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth atodedig yn helpu i lywio gwaith craffu pellach y Pwyllgor Cyllid os aiff y Bil yn ei flaen i Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at weithio gydag aelodau'r pwyllgor ar y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark".

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) – Cam 1**

### **Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Cyllid**

#### **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

Rwy'n ddiolchgar i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r rhai sydd wedi cyfrannu at y gwaith craffu cadarn ar y Bil hyd yma. Rwy'n falch bod y Pwyllgor Cyllid wedi gallu argymhell y cytunir ar yr egwyddorion cyffredinol.

#### **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael sicrwydd na fydd y newidiadau arfaethedig i Fil Cyllid 2017 yn effeithio'n andwyol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru cyn mis Ebrill 2018

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y gŵyr y pwyllgor, ysgrifennais at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ar 14 Rhagfyr 2016 i geisio sicrwydd na fydd y newidiadau arfaethedig i Fil Cyllid 2017 yn effeithio'n andwyol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi ateb fy llythyr yn cadarnhau nad yw'r cynigion yn newid cwmpas y dreth, ac nad ydynt ychwaith yn gosod beichiau gweinyddol ychwanegol ar weithredwyr. Atodaf gopi o'r llythyr er gwybodaeth.

Rwy'n deall y bydd manylion y cynigion yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, sydd eto i'w chyhoeddi. Byddaf yn parhau i weithio gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru, Trysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru cyn mis Ebrill 2018 pan fydd treth dirlenwi yn cael ei datganoli i Gymru.

#### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r darpariaethau a gaiff eu gweithredu drwy reoliadau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, gan gynnwys y cyfraddau trethiant arfaethedig, neu fan lleiaf fod y cyfraddau arfaethedig yn cael eu cyhoeddi cyn 1 Hydref 2017.

#### **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adran 15 (Deunydd cymwys) yn pennu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys, ond dylai'r Bil gynnwys pŵer i ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau hefyd

Rwy'n ystyried yr argymhellion hyn gyda'i gilydd. Fel y soniwyd yn gynharach yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor, fy man cychwyn oedd cynnwys darpariaethau sylweddol ar wyneb y Bil lle bynnag y bo'n bosibl. O gymharu â deddfwriaeth y dreth dirlenwi yn y DU a'r Alban, rydym wedi cynnwys mwy o ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys meysydd sydd eisoes yn cael eu cwmpasu gan is-ddeddfwriaeth, canllawiau neu hysbysiadau. Mae darpariaethau'n ymwneud â phwyso, disgownt mewn cysylltiad â dŵr, ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwaredu, llwythi cymysg, gweithgareddau rhagnodedig ac anfonebau tirlenwi oll yn enghreifftiau o hyn.

Felly dim ond llond dwrn o feysydd sylweddol y mae angen ymdrin â hwy drwy is-ddeddfwriaeth cyn i'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) gael ei gweithredu.

Yng nghyd-destun cyfraddau'r LDT a'r rhestr o ddeunyddiau cymwys, nodwyd y rhain fel meysydd sy'n debygol o fod angen eu hadolygu'n rheolaidd, yn arbennig pan wneir newidiadau i dreth dirlenwi'r DU. Gan y bydd cyfraddau treth dirlenwi presennol y DU yn parhau tan 2018-19 (gan gynyddu yn unol â'r gyfradd chwyddiant), mae'n rhesymol tybio y bydd Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu ac yn cyhoeddi cyfraddau newydd ar gyfer treth dirlenwi y DU.

Amlinellais yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor fy rhesymau dros beidio â rhoi'r cyfraddau treth ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwy'n derbyn argymhelliad y pwyllgor i wneud ymrwymiad - tebyg i'r un yr wyf eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir - i gyhoeddi'r cyfraddau treth arfaethedig erbyn 1 Hydref 2017 gyda'r nod o gyflwyno rheoliadau ar ôl Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn llywio ymhellach y gwaith o gynllunio busnes a buddsoddi yn y sector gwastraff, yn ogystal â sicrhau bod gennyf yr hyblygrwydd y nododd rhanddeiliaid y bydd ei angen er mwyn ymateb yn gyflym pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfraddau treth cyn cyflwyno'r LDT ym mis Ebrill 2018.

O ran rhoi'r rhestr o ddeunyddiau cymwys ar wyneb y Bil, rwy'n credu bod rhywfaint o werth mewn pennu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys ochr yn ochr â'r cyfraddau treth a bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yma i allu ymateb i newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gallaf weld y gallai rhoi deunyddiau cymwys ar wyneb y Bil roi eglurder i weithredwyr safleoedd tirlenwi. Mae angen ystyried a thrafod y manylion ymhellach. Yn amodol ar hyn, byddaf yn cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yn ddiweddarach ym mhroses y Bil.

Mae cysondeb gyda Lloegr yn hyn o beth yn bwysig er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r LDT. Mae angen i'r rhestr yng Nghymru allu cael ei haddasu'n gyflym yn unol â newidiadau a wneir yn y DU ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am gydnabod hyn ac awgrymu pe bai deunyddiau cymwys yn cael eu rhoi ar wyneb y Bil, y dylid cael pŵer i wneud rheoliadau i gyd-fynd â hyn er mwyn newid y rhestr.

#### **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio â'r Pwyllgor i gyflwyno bil fframwaith ariannol cyn gynted ag y bo modd, er mwyn gallu cyflwyno bil cyllideb/cyllid blynyddol

O ystyried lefel y trethiant sydd wedi ei ddatganoli ar hyn o bryd – bydd y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cael eu datganoli ym mis Ebrill 2018 – byddai'n anghymesur ar yr adeg hon ystyried cyflwyno Bil Cyllid blynyddol i ystyried newidiadau deddfwriaethol i drethiant yn rheolaidd.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r pwyllgor cyllid i hybu'r agenda hon wrth i gyfrifoldebau cyllidol Cymru gynyddu – bydd cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2019.

#### **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff yn adran 6 (Gwaredu deunydd fel gwastraff) er mwyn bod yn fwy eglur a syml.

Rwy'n fodlon derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn a rhoi eglurhad pellach i'r Pwyllgor am hyn.

Roedd diffiniad priodol o warediad trethadwy a diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff yn fater allweddol yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil ac mae pennod 2 yn Rhan 2 o'r Bil wedi cael ei llunio'n ofalus i adlewyrchu'r casgliadau yn sgil y trafodaethau hynny. Er mwyn rhoi mwy o ddealltwriaeth i'r pwyllgor o'r broses ystyried, amgaeaf atodiad sy'n amlinellu'r darpariaethau perthnasol yn y Bil; y gyfraith achos berthnasol a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Bil.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth gefndir hon yn ddefnyddiol ac y bydd yn dangos yr amrywiol ystyriaethau y mae angen eu cydbwysu a'r dull trylwyr ac ystyriol a fabwysiadwyd.

### **Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch gweithredwyr a rheolwyr i fodloni ei hun a'r Pwyllgor na fydd hyn yn broblem yng Nghymru.

Rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn a hoffwn gadarnhau bod fy swyddogion wedi egluro'r materion a godwyd yn ystod sesiwn graffu'r pwyllgor gyda rhanddeiliaid.

Cododd yr enghraifft o sefyllfa'n ymwneud â rheolwr, a roddwyd gan Deloitte (gweler paragraffau 72 ac 80 o adroddiad y pwyllgor), yn Lloegr; mae rhanddeiliaid wedi cadarnhau mai digwyddiad prin yw hwn ac nid ydynt wedi gweld sefyllfa debyg ac nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw safleoedd yng Nghymru lle y gallai amgylchiadau o'r fath godi.

Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd yn ofalus ddarpariaethau'r DU ar gyfer rheolwyr a'u profi gyda rhanddeiliaid. At hynny, cadarnhaodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi nad oes rheolwyr wedi'u cofrestru gydag ef yng Nghymru a chadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai dyma oedd ei ddealltwriaeth yntau hefyd. Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon a'r adborth gan rhanddeiliaid, rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd angen y darpariaethau sy'n gwneud rheolwyr yn atebol i dalu LDT.

Mae'r Alban hefyd wedi cael anhawster gyda'r mater hwn ac mae wedi diffinio rheolwr a'r wyneb ei Bil hi gan gyflwyno pŵer i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth i reolwr fod yn atebol i dalu'r dreth.

Penderfynwyd, er mwyn diogelu'r Bil ar gyfer y dyfodol a rhag ofn y bydd data ar gael ar ôl i'r LDT gael ei chasglu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i awgrymu bod rheolwyr yn broblem yng Nghymru, y byddem yn mabwysiadu'r un dull. Mae'r Bil, felly, yn diffinio rheolwr ac yn cynnwys pŵer - yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol - i wneud darpariaeth yn y maes hwn pe bai ei angen yn y dyfodol.

### **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried geiriad adran 11 (Mynwentydd anifeiliaid anwes) ynghylch gwaredu anifeiliaid anwes meirw, gan roi ystyriaeth benodol i symleiddio'r gyfraith a sicrhau cysondeb dwyieithog.

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r pwyllgor ar 2 Chwefror 2017, cadarnhawyd y byddwn yn edrych ar y mater hwn. Rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn a chadarnhaf y byddaf yn cyflwyno gwelliant llywodraeth ar Gyfnod 2.

### **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn ansicr ar ba achlysur y gallai esemptiad fod yn gymwys i warediad heb awdurdod ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Pennod 3 o Ran 2 o'r Bil, gan ystyried sut y gallai esemptiadau fod yn gymwys i warediadau heb awdurdod yn y dyfodol.

Rwy'n fodlon derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn a rhoi eglurhad pellach i'r Pwyllgor am hyn.

Mae dau esemptiad yn y Bil, sy'n ymwneud â gwarediadau lluosog deunyddiau (adran 10) a mynwentydd anifeiliaid anwes (adran 11) - dim ond yng nghyd-destun y gwarediadau mewn safle tirlenwi awdurdodedig y mae'r ddau esemptiad hyn yn berthnasol.

Fodd bynnag, mae Pennod 3 yn Rhan 2 o'r Bil wedi'i llunio mewn modd sy'n caniatáu'r posibilrwydd o greu esemptiadau yn y dyfodol a allai fod yn berthnasol i warediadau mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gwarediadau heb awdurdod (fel y diffinnir yn adran 3(3)(b)) neu'r ddau.

Mae hyn yn groes i Bennod 3 yn Rhan 3 o'r Bil sy'n amlinellu rhyddhadau o'r LDT. Mae'r Bil wedi'i lunio fel mai dim ond mewn perthynas â gwarediadau a wneir mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig y gellir gwneud rhyddhadau.

Mae'r sail resymegol dros y gwahaniaeth hwn yn deillio o'r ffaith bod yn rhaid i ryddhad gael ei hawlio gan weithredwr safle tirlenwi ar ffurflen dreth er mwyn i ACC allu cynnal gwiriadau cydymffurfio a chasglu data am y defnydd o ryddhadau. Nid yw'r senario hon yn berthnasol yng nghyd-destun gwarediad heb ei awdurdodi, lle na fydd ffurflenni treth yn cael eu llenwi.

Effaith esemptiad yw sicrhau bod gwarediad y tu hwnt i gwmpas y dreth yn gyfan gwbl, heb ddim gofynion cofrestru neu gyflwyno ffurflenni yn cael eu hysgogi yn sgil gwarediad esempt.

Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i greu esemptiad a fyddai'n berthnasol i warediadau heb awdurdod. Fodd bynnag, mae sicrhau bod y Bil yn caniatáu ar gyfer hyn yn darparu hyblygrwydd, yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith bod cymhwyso'r dreth i warediadau heb awdurdod yn gysyniad cymharol newydd ac er bod yr egwyddor hon wedi'i sefydlu yn yr Alban, nid yw eto wedi cael ei phrofi'n ymarferol nac yn y llysoedd na'r tribiwnlysoedd. Mae cwmpas posibl y darpariaethau ar gyfer gwarediadau heb awdurdod yn eang. Yn y cyd-destun hwn, mae'n arbennig o bwysig bod cyfle i sicrhau nad yw'r darpariaethau hyn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac annymunol.

Mewn perthynas â gwarediadau awdurdodedig a heb awdurdod, mae adran 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi mai dim ond pan fydd y person sy'n gyfrifol am waredu'r deunydd yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu y mae gwarediad trethadwy yn digwydd. Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr am y prawf hwn gyda'r Pwyllgor ac rwyf wedi rhoi rhagor o gyngor technegol arno. Mae hyn yn golygu, wrth benderfynu a yw'r dreth yn daladwy, bod yn rhaid cael dadansoddiad o fwriad y sawl sy'n gyfrifol ac a gafodd y deunydd ei fwrw o'r neilltu. Gall hyn ymwneud â ffeithiau penodol a gellir ei ddehongli

mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r ymgyfreitha helaeth sy'n gysylltiedig â hyn yn dangos y posibilrwydd o anghytundeb a natur ffeithiau-penodol y dadansoddiad.

Mewn ymateb i hyn, ac er mwyn nodi'n ddiamheuol bod gwarediadau penodol mewn safleoedd tirlenwi yn drethadwy, mae adran 8 o'r Bil yn cynnwys rhestr o weithgareddau a fydd yn cael eu trin fel gwarediadau trethadwy.

I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, ac o gofio cwmpas eang posibl y darpariaethau ar warediadau heb awdurdod, efallai y bydd yn angenrheidiol yn y dyfodol nodi'n ddiamheuol *na fydd* rhai gweithgareddau y tu allan i safleoedd tirlenwi yn drethadwy. Ni ddylai'r LDT rwystro pobl rhag gwneud gweithgaredd cyfreithlon. Er enghraifft, lle mae'n cyflawni swyddogaeth amgylcheddol ddilys a chadarnhaol megis pan fydd deunydd yn cael ei dynnu o ddyfrffordd a'i adael ar y lan lle mai bwriad ei roi yn yr amgylchedd naturiol yw gweithredu fel clustog rhag erydu arfordirol, neu i ddarparu cynefin naturiol i fywyd gwylt, neu i gryfhau glannau afon a'u gwarchod rhag erydu.

Mewn llawer o amgylchiadau, dylai fod yn amlwg lle nad yw deunydd yn cael ei fwrw o'r neilltu ac ni ddylid codi LDT. Ond efallai y bydd amser a phrofiad yn dangos bod achosion pan fyddai'n ddefnyddiol ac yn fuddiol darparu eglurder a sicrwydd absoliwt yn y gyfraith. Yn y cyd-destun hwn, mae adran 12 o'r Bil yn cynnwys cam diogelu pwysig, drwy ddarparu'r hyblygrwydd i newid yr esemptiadau gan fabwysiadu dull yn seiliedig ar synnwyr cyffredin

### **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 26 (Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill) er mwyn sicrhau bod deunydd a dynnir yn ystod gweithgareddau atal llifogydd yn ddarostyngedig i'r un rhyddhadau â deunydd a dynnir er budd mordwyaeth.

Mae atal llifogydd yn fater pwysig ac rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd gwaith nawr yn cael ei wneud gyda'r nod o gyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yn ddiweddarach ym mhroses y Bil.

### **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 27 (Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela) i sicrhau nad yw'n achosi dryswch ymysg rhanddeiliaid.

Rwy'n derbyn argymhelliad y pwyllgor. Mae fy swyddogion wedi trafod gyda rhanddeiliaid i sicrhau nad oes modd i ddryswch godi ynglŷn â'r mater hwn. Mae'r Pwyllgor Cyngori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol wedi egluro bod y ffigur o 20% a roddwyd mewn tystiolaeth i'r pwyllgor yn ymwneud â chyfanswm y gwastraff sy'n deillio o chwarela a mwyngloddio yn y DU nad yw'r cyfan ohono'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod llai nag 1% o wastraff chwarela a mwyngloddio yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi - mae sawl opsiwn ar gyfer rheoli'r gwastraff hwnnw yn uwch yn yr hierarchaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amryw o gynhyrchwyr gwastraff, er enghraifft y sector adeiladu a dymchwel, i annog atal, aildefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

[http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste\\_recycling/bysector/?lang=cy](http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/bysector/?lang=cy)

### **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adran 15 (Deunydd cymwys) yn pennu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys, ond dylai'r Bil gynnwys pŵer i ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau hefyd

Gweler yr ymateb i argymhelliad 3.

### **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Bil mewn perthynas ag adran 16 (Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau) gan gyfeirio'n benodol at y darpariaethau o dan yr adran hon sy'n cyfeirio at 'swm bychan'

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn ac yn amlinellu yma sut y mae'r trefniadau yn adran 16 yn gweithio gyda'i gilydd a'm bwriad o ran polisi mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 16(3).

Mae adran 16 (cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau) yn faes lle rydym wedi ceisio cryfhau model presennol y DU, er mwyn darparu mwy o eglurder i weithredwyr safleoedd tirlenwi er mwyn eu cynorthwyo i gymhwyso'r gyfradd dreth gywir. Mae'r adran hon wedi bod yn destun ystyriaeth a thrafodaeth ofalus gyda rhanddeiliaid.

Clywodd y pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth gan rhanddeiliaid yn ymwneud â'r prawf 'bychan ac atodol' a'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 16(3), sy'n galluogi'r diffiniad o 'bychan' (ond nid 'atodol') i gael ei ddiffinio ymhellach drwy gyfeirio at ganran benodedig ac, fel y gwnaed wrth ddatblygu'r Bil, cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan rhanddeiliaid ar y mater hwn.

Mae Adran 16 o'r Bil yn amlinellu chwe gofyniad (neu saith yn achos gronynnau mân), ac mae'n rhaid bodloni pob un ohonynt er mwyn i lwyth sy'n cynnwys cymysgedd o ddeunydd cymwys (y gyfradd is) ac anghymwys fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is. Nid oes yr un o'r gofynion hyn yn wahanol iawn i ganllawiau ac ymarfer presennol y DU. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio egluro'r sefyllfa drwy amlinellu rhestr glir o ofynion ar wyneb y Bil.

Yn ogystal â'r gofyniad cyntaf - bod y llwyth yn cynnwys dim ond swm bychan o ddeunydd anghymwys sy'n atodol i'r deunydd cymwys - mae eraill yn cynnwys gofyniad na ddylid cymysgu deunydd anghymwys yn fwriadol â deunyddiau cymwys at ddibenion gwaredu (y trydydd gofyniad) a gwaharddiad ar wneud trefniadau at ddibenion osgoi treth (gofyniad saith). Nod hyn yw darganfod achosion lle mae cymysgedd wedi'i llunio'n artiffisial (er enghraifft, cymryd deunyddiau o un rhan o safle adeiladu a'u hychwanegu at ddeunyddiau o ran arall) neu wedi'u cyflwyno mewn ffordd sydd wedi'i bwriadu i leihau ymddangosiad y deunydd cyfradd safonol).

Rhoddir eglurhad pellach o'r gofyniad cyntaf yn adran 16(2) gan nodi bod angen asesu pwysau a chyfaint deunydd anghymwys mewn llwyth a'r potensial i'r deunydd hwnnw beri niwed. Ni fydd y cysyniadau hyn yn newydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi gan eu bod yn adlewyrchu canllawiau ac ymarfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Rydym wedi ceisio egluro a chodeiddio'r sefyllfa yn y Bil ac rwy'n disgwyl i ACC weithio gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi i ddatblygu canllawiau ymarferol ar sut y dylid defnyddio'r prawf bychan ac atodol i'w cynorthwyo i wneud eu hasesiad.

Diben y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 16(3) yw cynnig dull ychwanegol o ddiffinio prawf bychan (ond nid atodol) yn y gofyniad cyntaf. Dyma'r gwahaniaeth mwyaf sylweddol rhwng y dull presennol o ymdrin â llwythi cymysg a'r un a gynigir yn y Bil.

Cyflwynwyd y cynnig i bennu trothwy canran i ddiffinio 'swm bychan' ymhellach gan randdeiliaid pan ymgysylltwyd â hwy y tro cyntaf ac o ganlyniad cafodd ei gynnwys fel cwestiwn yn ein hymgynghoriad yn 2015. Roedd gwahaniaeth barn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai goblygiadau ymarferol yn sgil cyflwyno trothwy; roedd y pwyllgor wedi clywed am rai o'r rhain fel rhan o'r dystiolaeth - er enghraifft dywedodd rhai y gallai annog pobl i gymysgu deunyddiau'n fwriadol hyd at y trothwy penodedig ond dywedodd eraill y byddai'n darparu lefel ddefnyddiol a diffiniol.

O gofio natur yr ymatebion, manteisiwyd ar y cyfle i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn gyda rhanddeiliaid. Argymhellwyd y dylid cynnwys pŵer newydd yn y Bil i ganiatáu hyblygrwydd i gyflwyno canran i ddiffinio 'bychan' yn ddiweddarach. Roeddent yn teimlo bod angen treulio amser yn casglu tystiolaeth ac i ganiatáu trafodaeth ac ystyriaeth bellach o'r materion hyn.

Rwyf wedi gwrando ar farn rhanddeiliaid ac wedi adlewyrchu'r rhain yn y Bil. Dyna pam mae'r Bil yn cynnwys pŵer i gyflwyno trothwy canran a dyna pam nad oes cynlluniau i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd.

Mae cynnwys y pŵer hwn yn bwysig er mwyn darparu hyblygrwydd i roi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn, i'n galluogi i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol a dysgu o ddealltwriaeth weithredol ACC o'r dreth. Bydd ymgynghori â rhanddeiliaid ac ystyriaeth ofalus o'r goblygiadau ymarferol yn ganolog i arfer y pŵer hwn.

Fodd bynnag, mae gennyf ddiddordeb ym marn pobl eraill ynghylch y dull a gynigir yn y maes hwn a byddaf yn gwrando'n astud arnynt yn ystod y drafodaeth ar gyfnod 1.

### **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Bil mewn perthynas ag adran 20 (Pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr) gan gyfeirio'n benodol at y gofyniad i 'bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy **cyn** y gwneir y gwarediad'

Rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am dynnu fy sylw at y mater hwn a chadarnhaf y byddaf yn cyflwyno gwelliant llywodraeth ar Gyfnod 2.

### **Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y gwarediadau heb awdurdod a'r erlyniadau sy'n deillio o hynny, ac yn eu cyhoeddi, i fesur llwyddiant y darpariaethau sy'n ymwneud â gwarediadau heb awdurdod.

Derbyniaf yr argymhelliad hwn, ond nodaf fod hwn yn fater gweithredol a chyfrifoldeb ACC fydd arwain ar ddarparu mesurau monitro a gwerthuso i atal efadu treth drwy warediadau heb awdurdod.

Mae'n bwysig cofio bod y darpariaethau wedi eu bwriadu'n bennaf fel rhwystr i efadu treth. Maent wedi eu bwriadu i sicrhau bod gwarediadau heb awdurdod yn fwy o risg



ariannol ac felly'n opsiwn llai deniadol i'r rhai sy'n cael eu temtio i anwybyddu eu rhwymedigaethau amgylcheddol ac efadu treth.

Byddwn yn disgwyl i ddull cydymffurfio ACC o ran gwarediadau heb awdurdod fod yn gymesur ac yn gost effeithiol a chael ei ystyried yng nghyd-destun y gwaith ehangach mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn ei wneud mewn perthynas â gwarediadau gwastraff anghyfreithlon. Yn hynny o beth, disgwyliaf y bydd ACC yn canolbwyntio ar safleoedd gwastraff mwy heb awdurdod lle mae tunelli sylweddol o wastraff wedi eu gwaredu'n anghyfreithlon a swm sylweddol o dreth wedi'i hefadu.

Disgwylir y bydd ACC yn mynd i'r afael â mwyafrif yr achosion o ddiffyg cydymffurfio drwy'r ymchwiliad sifil a'r weithdrefn gosbi a nodwyd yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a'i datblygu ymhellach ym Mil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) Byddaf yn ymgynghori yn y gwanwyn ynghylch a ddylai ACC gael pwerau troseddol yn y gwanwyn.

### **Argymhelliad 15**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y cyfnod o 75 diwrnod a ddarperir ar gyfer talu'r dreth ar warediadau heb awdurdod a allai fod wedi digwydd hyd at 20 mlynedd cyn hynny.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cadarnhau fy mod wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. Mae tegwch a chysondeb wedi bod yn ffactorau pwysig wrth ddatblygu'r LDT a'r dreth trafodiadau tir. Credaf mai'r dull a amlinellir yn y Bil yw'r dull cywir ac mae'n adlewyrchu barn rhanddeiliaid.

Amlinellaf isod, er gwybodaeth i'r pwyllgor, sut y cyfrifwyd y cyfnod 75 diwrnod; sut y mae'n gyson â'n dull o ymdrin â gwarediadau awdurdodedig a'r defnydd o'r Rheol Gyffredinol yn erbyn Osgoi Trethi (GAAR) gan egluro'r amserlen 20 mlynedd.

Er mwyn ystyried yn briodol y cyfnod 75 diwrnod, mae'n bwysig ystyried ar wahân y ddau fath o hysbysiad sy'n berthnasol yng nghyd-destun gwarediadau heb awdurdod. Yn gyntaf, mae'r *hysbysiad rhagarweiniol* yn ymwneud ag ACC yn casglu ffeithiau ac yn penderfynu dyroddi hysbysiad codi treth. Nid oes hysbysiad cyfatebol yng nghyd-destun gwarediadau awdurdodedig, ond gellir cymharu hyn ag ymchwiliad gan yr ACC. Bwriad hyn yw bod yn gam diogelu priodol o ystyried y cyd-destun ac os bydd rhywun yn teimlo bod angen mwy o amser arno (y tu hwnt i'r 45 diwrnod a ddyrennir) i ymateb i hysbysiad rhagarweiniol yna gall ACC gytuno i ymestyn yr amserlen. Mae hefyd yn ofyniad bod ACC yn ystyried unrhyw sylwadau a thystiolaeth a gaiff. Byddwn yn disgwyl i ACC feddu ar dystiolaeth foddhaol i ddyroddi hysbysiad codi treth mewn perthynas â digwyddiad a ddigwyddodd hyd at 20 mlynedd yn ôl.

Yn ail, cais i dalu treth yw *hysbysiad codi treth* lle mae'r ACC wedi dod i'r casgliad y dylid codi treth ar berson, sy'n cyfateb i benderfyniad neu asesiad o dan ran 3 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ar gyfer gwarediadau awdurdodedig. Yn dilyn dyroddi'r hysbysiad hwn mae gan berson 30 diwrnod i dalu'r dreth.

Os bydd gan berson ragor o sylwadau i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno yn dilyn derbyn hysbysiad codi treth yna gall wneud cais am adolygiad neu apêl i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Yn yr achos hwn, efallai y gellir gohirio talu'r dreth yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad neu'r apêl. O ran gweithrediad hyn oll, caiff trethdalwyr heb awdurdod eu trin yn yr un modd a threthdalwr awdurdodedig.

Mae'r amserlenni yn cyd-fynd â'r broses sydd ar waith ar gyfer dyroddi hysbysiad o dan y GAAR (fel y nodir yn Rhan A o Ddeddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). O dan GAAR, mae gan drethdalwr 45 diwrnod (neu gyfnod hwy y bydd ACC yn cytuno arno) i ymateb i hysbysiad atal mantais arfaethedig cyn i'r ACC gyhoeddi hysbysiad atal mantais terfynol a fydd, pan ddeuir i'r casgliad bod yn rhaid atal mantais dreth, yn ysgogi dyletswydd i dalu treth o fewn 30 diwrnod.

Nod yr amser a roddir i ACC gyflwyno cais yw caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o weithgarwch nad yw'n hysbys; nid ei fwriad yw rhoi hyd at 20 mlynedd i ACC ymchwilio i ddigwyddiad. Rydym yn ymwybodol y gall sefyllfaoedd godi lle na fydd gweithgarwch yn hysbys am nifer o flynyddoedd oherwydd ei leoliad pellennig neu ymdrechion person i weithredu gan esgus bod y gweithgarwch yn gyfreithlon.

Mae terfyn o bedair blynedd yn berthnasol i'r ACC o'r adeg y bydd yn dod yn ymwybodol o'r angen i ymchwilio i warediad a'r adeg y bydd yn rhaid iddo ddyroddi hysbysiad. Mae'r amserlen yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o drafodaethau gyda rheoleiddwyr amgylcheddol ac awdurdodau treth eraill ynghylch yr amser a gymerir i gyflwyno camau gweithredu sifil a throeddol yn ymwneud â threth. Byddai ymddygiad ACC, gan gynnwys unrhyw oedi rhesymol, yn destun proses adolygu ac apelio.

Fodd bynnag, mae gennyf ddi-ddordeb ym marn pobl eraill ynghylch y dull a gynigir yn y maes hwn a byddaf yn gwrandao'n astud arnynt yn ystod y drafodaeth ar gyfnod 1.

#### **Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r darpariaethau yn adran 61 (Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir) i sicrhau na chaiff gweithredwyr eu cosbi os na fyddant yn gwneud cais am y disgownt llawn sydd ar gael iddynt.

Rwy'n fodlon derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am dynnu fy sylw at y mater hwn a byddaf yn cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yn ystod cyfnod 2.

#### **Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gosb sy'n gysylltiedig â methu â chofrestru gydag Awdurdod Cyllid Cymru.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac rwy'n cadarnhau fy mod wedi adolygu'r gost hon yn unol â chosbau eraill sy'n gysylltiedig â threthi Cymru. Un o'r egwyddorion cyffredinol yw sicrhau bod y cosbau sy'n gysylltiedig â threthi Cymru ac yn dilyn hynny, y cosbau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn, yn deg ac yn gymesur.

Rwyf wedi amlinellu yma sut y rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r gost yng nghyd-destun yr hyn yr eir i'r afael ag ef, yn ogystal â darpariaethau eraill ar gyfer cosbau yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae'n bwysig amlygu bod cost diffyg dalu ddyddiol yn gysylltiedig â'r gost gofrestru £300. Os bydd person yn parhau i gynnal gweithrediadau trethadwy heb gofrestru, bydd yn rhaid iddynt dalu cosb neu gosbau eraill o £60 y dydd. Yn ogystal, mae'r gosb gofrestru yn gymwys ar ben y ddyletswydd i roi cyfrif am warediad trethadwy a thalu treth arno (amlinellir y cosbau ar gyfer hyn yn Rhan 5 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

Fel y nododd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dystiolaeth, mae'n cymryd blynyddoedd o gynllunio i ddatblygu safleoedd tirlenwi a cheir trwyddedau amgylcheddol, sy'n cymryd

amser i'w prosesu. Mae'r tebygolrwydd y bydd gweithredwr safle tirlenwi yn mynd drwy'r broses hon ac yna'n peidio â chofrestru yn fach iawn. Fodd bynnag, mae cosb yn anfon y neges bod yn rhaid i weithredwyr safleoedd tirlenwi gydymffurfio â'r gofynion cofrestru.

### **Argymhelliad 18**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad ar ddyledion drwg ac o dan ba amgylchiadau y caniateir cymhwyso hynny, gael ei rhoi ar y wyneb y Bil, a bod hynny'n cael ei ategu gan bŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater hwn. Rwy'n credu ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i fanylion y system gredyd a sut y bydd yn gweithio ar ôl i weddill y system LDT gael ei rhoi ar waith - rydym yn rhagweld y bydd y rheoliadau'n dechnegol ac yn astrus ac yn fwy addas ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Mae pŵer i wneud rheoliadau ar gredydau yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd yn y DU a'r Alban.

Yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor ar 2 Chwefror, rhoddais gadarnhad o'm bwriad i gyflwyno'r rheoliadau hyn yn hydref 2017. Wrth ddatblygu'r rheoliadau byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn addas at y diben.

Ar y sail hon, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi rhagor o fanylion i'r pwyllgor o'r bwriad polisi y tu ôl i'r rheoliadau yn ystod cyfnod 2 er mwyn cynorthwyo gyda'r broses graffu.

### **Argymhelliad 19**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cyfeirio at ddarpariaeth i sefydlu cynllun cymunedau ar wyneb y Bil, ond y gellid gwneud darpariaeth amgen ar gyfer y manylion am gymhwyso'r cynllun.

Rwy'n gwbl ymrwymedig i gael Cynllun Cymunedau ac yn cydnabod y manteision amlwg i gymunedau sydd wedi'u lleoli ger safleoedd tirlenwi. Rwyf wedi dangos yr ymrwymiad hwn drwy gydol taith y Bil hwn drwy'r Senedd; ym mis Rhagfyr 2015 cyhoeddais bapur diweddarau yn amlinellu nifer o gynigion ar gyfer y cynllun, rwyf wedi ysgrifennu atoch ar wahân yn crynhoi'r ymateb i'r papur diweddarau ac rwyf wedi ymrwymo i gychwyn ymarfer caffael i benodi'r corff dosbarthu yn y gwanwyn.

Rwy'n gwerthfawrogi pryderon y Pwyllgor a rhanddeiliaid a gallaf gadarnhau y byddaf yn ystyried hyn ymhellach gyda'r nod o gyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth yn ddiweddarach ym mhroses y Bil.

### **Argymhelliad 20**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa gyfran o refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi a gaiff ei dyrannu i Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi cyn i'r Bil ddod i rym.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd gwerth cyffredinol ar gyfer Cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r lansiad caffael yng ngwanwyn

2017. Bydd y penderfyniad terfynol am ddyrannu'r cynllun hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun y trafodaethau Cyllideb yn yr hydref.

### **Argymhelliad 21**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried sut y byddai Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu, roi sylw i'r meysydd canlynol a grybwyllwyd yn y dystiolaeth.

- Adolygu cwmpas daearyddol y cynllun er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau posibl wrth ddod o hyd i brosiectau lleol dros amser, neu ormod o alw o fewn y radiws 5 milltir;
- Yr angen i sicrhau cymhwyster prosiectau trawsffiniol;
- Rhannu'r arian yn gyfartal rhwng y tair thema allweddol, sef bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill;
- Sicrhau bod y cynllun ar gael i gymunedau lle mae achosion mynych o wastraff yn cael ei waredu heb awdurdod (os digwydd bod treth yn cael ei chodi);
- Cynnwys proses o adfer safleoedd gwaredu gwastraff diffaith neu amddifad o fewn cwmpas y cynllun

Rwy'n croesawu'r dystiolaeth gan randdeiliaid i'r pwyllgor ac mewn ymateb i'r papur diweddar a gyhoeddais ym mis Rhagfyr. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r rhain a byddaf yn rhoi rhagor o fanylion am weithrediad y cynllun yn ystod yr ymarfer caffael i benodi corff dosbarthu.

Mewn ymateb i'r materion penodol a godwyd:

- Bydd cwmpas daearyddol y cynllun yn parhau i gael eu hadolygu. Mae'r rheol pum munud – a'i hystyried i orsafoedd trosglwyddo gwastraff – yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau bod y cymunedau hynny yr effeithir fwyaf arnynt gan waredu gwastraff i'w dirilenwi yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o brosiectau heb daenu'r cyllid yn rhy denau. Byddwn yn gweithio gyda'r corff dosbarthu i ystyried sut mae prosiectau unigol yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer a math y prosiect a swm yr arian sydd ar gael;
- Dylai'r corff dosbarthu ystyried cyfleoedd i gyllido prosiect trawsffiniol ar y cyd. Bydd nifer bach o gymunedau o Loegr yn agos at safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Cafodd map ei gynnwys yn y papur diweddar ar dudalen 11 – mae hyn yn dangos nifer bach o safleoedd tirlenwi a leolir yng ngogledd Cymru, sy'n ffinio â Lloegr;
- Wrth ddatblygu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, rydym wedi ceisio symleiddio gweinyddu'r cynllun i sicrhau bod cymaint o'r cyllid â phosibl ar gael i gynorthwyo prosiectau. Nid wyf o blaid rhaniad rhifyddol cyfartal rhwng y tri maes prosiect. Mae'n bwysig ein bod yn cyllido prosiectau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i gymunedau - gallai dull cyllido ar sail 'cwota' arwain at y canlyniad gwrthnysig o gyllido prosiectau anaddas er mwyn cyrraedd terfyn rhagnodedig. Fodd bynnag bydd yr egwyddorion pwysig, sef natur agored a natur ddiduedd, yn berthnasol i sicrhau canlyniadau cyfartal.

Bydd yn bwysig i'r corff dosbarthu fonitro'r mathau o brosiectau a mathau o ddyfarniadau cyllid a sicrhau bod y data hyn ar gael yn gyhoeddus. Bydd hyn yn cynorthwyo'r corff dosbarthu i nodi lle y gall fod angen hyfforddiant ac offer

ychwanegol i sicrhau cynrychiolaeth dda o gymwysiadau o ansawdd ar draws y tri maes prosiect.

- Rydym wedi trafod â rhanddeiliaid y posibilrwydd o gynorthwyo cymunedau sydd wedi cael profiad o achosion niferus o warediadau heb awdurdod. Roedd cytundeb cyffredinol na ddylai'r cyllid gael ei ddyfarnu'n benodol i'r meysydd hyn oherwydd bydd hyn yn anfon y neges anghywir i'r rhai sy'n rhedeg safleoedd gwastraff anghyfreithlon a'r bobl hynny sy'n mynd â'u gwastraff i'r safleoedd hyn. Roedd pryderon hefyd, yn sgil y broses ymchwilio, na fyddem yn gallu cynorthwyo'n deg yr holl gymunedau yr effeithir arnynt. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau amgylcheddol presennol i fynd i'r afael â'r safleoedd hyn. Rwyf wedi ymestyn cwrmpas y cynllun i ardaloedd newydd o Gymru a gall yr holl gymunedau yn yr ardaloedd hyn wneud cais am gyllid.
- Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth i gefnogi cynnwys safleoedd gwaredu gwastraff diffaith ac amddifad o fewn cwrmpas y cynllun. Mae darpariaeth eisoes yn ei lle ar gyfer y rheoleiddiwr amgylcheddol i asesu rheolaeth ac ôl-ofal safleoedd tirlenwi amddifad. Cyn bod trwydded safle tirlenwi yn cael ei rhoi a chychwyn gweithrediadau gwaredu, mae'n un o ofynion y gyfarwyddeb tirlenwi bod darpariaeth ariannol yn cael ei gwneud os na fydd y gweithredwr safle tirlenwi yn gallu bodloni'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r drwydded (fel rheoli nwy a thrwytholch) gan gynnwys ôl-ofal y safle tirlenwi.

Rhaid i ddarpariaeth ariannol ar gyfer safleoedd tirlenwi fod yn ddigonol, yn ddiogel ac ar gael. Gellir cyflawni hyn, er enghraifft, drwy fondiau adnewyddadwy, cyfrifon escrow neu adneuon arian parod. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau i weithredwyr safleoedd tirlenwi](#) ar ddarpariaeth ariannol. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymgynghori yn ddiweddarach eleni ar newidiadau i gryfhau a symleiddio'r gofynion cymhwysedd ac ariannol ymhellach, y dylai gweithredwyr eu bodloni wrth wneud cais am drwydded amgylcheddol neu feddu arni.

### **Argymhelliad 22**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu costau manylach ar gyfer gorfodi'r darpariaethau mewn perthynas â gwaredu gwastraff heb awdurdod.

Mae hwn yn fater gweithredol i ACC. Fodd bynnag, pan fydd y wybodaeth ar gael rwy'n disgwyl i ACC ddarparu costau manylach ar gyfer gorfodi'r darpariaethau mewn perthynas â gwaredu gwastraff heb awdurdod a bod y wybodaeth honno ar gael mewn fformat hygyrch a defnyddiol. Ar y sail hon, derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Mae Rhaglen Weithredu ACC yn cyllido swydd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i gynorthwyo wrth ddylunio a chyflawni'r swyddogaeth gydymffurfio a gorfodi ar gyfer LDT.

### **Argymhelliad 23**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i adolygu'r trethi am waredu gwastraff heb awdurdod ac yn sefydlu trefniant rhannu refeniw i gefnogi gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol o ran gorfodi a chydymffurfio.

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn. Mewn perthynas â gwaredu gwastraff heb awdurdod, lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru (fel y rheoleiddiwr amgylcheddol) ac

awdurdodau lleol wedi bod yn hanfodol o ran cynorthwyo wrth ymchwilio i'r LDT a mynd ar drywydd hyn. Rwy'n cydnabod yr achos y gellid dyrannu rhywfaint o'r refeniw LDT ychwanegol a godwyd o ganlyniad i'w hymdrechion cydymffurfio a gorfodi i gwmpasu costau ac annog gweithredu yn y dyfodol. Gellir cyflawni'r cymhelliad hwn drwy bwerau presennol a byddai'n destun y craffu arferol ar y gyllideb.

Ar ôl mis Ebrill 2018, bydd gennym ddealltwriaeth well o raddfa a chwmpas gwarediadau heb awdurdod yng Nghymru a byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw drefniant rhannu refeniw â Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn gymesur ac yn cael ei gytuno ar y cyd.

Disgwyliaf i ACC gynorthwyo wrth weithredu'r cytundeb hwn. Rwyf hefyd yn disgwyl i ACC ystyried adrodd ar hyn yn ei adroddiad blynyddol.

#### **Argymhelliad 24**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi costau sefydlu diwygiedig ychwanegol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru a'r costau dirwyn i ben ar gyfer Treth Dirlenwi'r DU pan fyddant ar gael.

Rwyf wedi ysgrifennu atoch ar wahân i roi diweddariad ar gostau ACC. Rhoddais y diweddariad canlynol:

Mae costau ACC mewn dau brif faes, costau staffio (y rhai sy'n gweithio ar y broses weithredu a'r bobl sydd eu hangen i weithredu'r ACC yn effeithiol o fis Hydref 2017 ymlaen), a darparu gwasanaethau digidol a TGCh i gasglu a rheoli ei drethi.

Hyd yma, mae'r broses o sefydlu ACC wedi costio £1.3 miliwn. Rhagwelir y byddwn yn gwario tua £3.5 miliwn ar weithredu yn 2017/18. Bydd tuag £1 filiwn arall o gostau gweithredu yn 2018/19. At ei gilydd bydd y costau gweithredu yn parhau i fod o dan y £6.3 miliwn a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Bydd y prosiect trawsnewid gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn darparu costau dirwyn i ben ar gyfer treth dirlenwi ym mis Ebrill. Roedd y rhain yn sero ar gyfer Llywodraeth yr Alban a disgwyliwn yr un peth i Gymru.